

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

LLESIANT, CYMRU

**Rheoliadau Cyd-bwyllgorau
Corfforedig (Diwygio Deddf
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
(Cymru) 2015) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn rhestru personau penodol sy'n "corff cyhoeddus" at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn nodi'r nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus geisio eu cyrraedd. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn galluogi swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus o dan Ran 2 o'r Ddeddf yn cael eu cyflawni.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig, a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 6 o'r Ddeddf, ac fel cyrff o'r fath mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn agored i gydymffurfio â Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Ddeddf drwy ddatgymhwyso adran 9 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyd-bwyllgorau corfforedig. Mae adran 8A, sy'n pennu pan fo rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig osod ac adolygu ei amcanion llesiant, wedi ei mewnosod yn y Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a gorchmynion a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi gan yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

LLESIANT, CYMRU

**Rheoliadau Cyd-bwyllgorau
Corfforedig (Diwygio Deddf
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
(Cymru) 2015) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

3 Rhagfyr 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(2)(a) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.—(1) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 6(1) (ystyr “corff cyhoeddus”), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“(ba) cyd-bwyllgor corfforedig;”.

(3) Ar ôl adran 8 (amcanion llesiant Gweinidogion Cymru) mewnosoder—

“8A Amcanion llesiant cyd-bwyllgorau corfforedig

(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar 1 Ionawr 2022 neu cyn hynny osod a chyhoeddi ei amcanion llesiant—

(a) heb fod yn hwyrach na 1 Ebrill 2023, a

(b) ar ba adegau dilynol bynnag ag y bo'n eu hystyried yn briodol.

(2) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir ar ôl 1 Ionawr 2022 osod a chyhoeddi ei amcanion llesiant—

(a) heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y dyddiad y sefydlir y cyd-bwyllgor corfforedig, a

(b) ar ba adegau dilynol bynnag ag y bo'n eu hystyried yn briodol.

(3) Os yw'r nodau llesiant yn cael eu diwygio, rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig adolygu ei amcanion llesiant.

(4) Os yw cyd-bwyllgor corfforedig yn penderfynu, yn dilyn adolygiad o dan is-adran (3), nad yw un neu ragor o'i amcanion llesiant yn briodol bellach, rhaid iddo ddiwygio'r amcan neu'r amcanion perthnasol.

(5) Caiff cyd-bwyllgor corfforedig, ar unrhyw adeg arall, adolygu a diwygio ei amcanion llesiant.

(6) Pan fo cyd-bwyllgor corfforedig yn diwygio ei amcanion llesiant o dan is-adran (4) neu (5), rhaid iddo eu cyhoeddi gyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(7) Wrth osod neu ddiwygio ei amcanion llesiant, rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig ystyried adroddiad y Comisiynydd a gyhoeddir o dan adran 23.”

(4) Yn adran 9(1) (amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill), ar ôl “Gweinidogion Cymru” mewnosoder “neu gyd-bwyllgor corfforedig”.

(1) 2015 decc 2.

(5) Yn adran 55(1) (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “cyd-bwyllgor corfforedig” (“*corporate joint committee*”) yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;”.

Enw

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad